# Atodiad 1

## Datblygu Cynllun Ymgysylltu Cymunedol

# Atodiad 1

## Datblygu Cynllun Ymgysylltu Cymunedol

**Ni ddylid ystyried y Cynllun Ymgysylltu Cymunedol yn ymarferiad trwm sy'n cynnwys cynhyrchu adroddiad hir, ond yn hytrach mae'n ddogfen weithiol sy'n hawdd i'w defnyddio. Gallwch wneud hyn ar ffurf taenlen os yw'n well gennych wneud hynny.**

Mae'r tabl isod yn enghraifft o ran y ffordd y gallwch gasglu'r wybodaeth:

| Cam Gweithredu | Lleoliad | Dyddiadau/ Amser | Math o Weithgaredd | Cyhoeddusrwydd | Cynulleidfa Targed |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfarfodydd rhanddeiliaid / darparwyr gwasanaeth | | | | | |
| | | | | | |
| Grwpiau Ffocws | | | | | |
| | | | | | |
| Sesiynau galw heibio | | | | | |

## Er mwyn datblygu'r Cynllun Ymgysylltu Cymunedol, mae angen i chi feddwl am y cwestiynau canlynol:

### Beth yw gweledigaeth ac amcanion y mapio cymunedol?

Cyn dechrau ar y gweithgaredd mapio cymunedol, pennwch statws presennol eich cymuned a'r hyn yr ydych eisiau i'r gymuned ei gyflawni. Mae datganiad o fwriad eglur yn hanfodol i unrhyw weithrediad bwriedig. Dylai fod yn heriol, yn arloesol ac yn ystyried y dyfodol. Bwriad y datganiad o fwriad yw datblygu delwedd a rennir o'r dyfodol.

Bydd datganiad o fwriad eglur yn nodi pob cam o'r broses mapio, yn egluro'r wybodaeth sydd angen i chi ei gwybod ac yn gosod y safon y mae modd gwerthuso'r projectau yn ei herbyn, ynghyd â helpu i ennyn diddordeb a chyfranogiad rhanddeiliaid newydd. Bydd datblygu teitl sy'n gysylltiedig â'r weledigaeth yn helpu i gynnal brandio nodedig.

Ar ôl penderfynu ar ddatganiad o fwriad, dylid meddwl yn galed am greu amcanion eglur a chywir. Mae angen i'r amcanion fod yn CAMPUS (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol). Mae angen i'r amcanion fod yn eithaf uchelgeisiol, ond nid mor uchelgeisiol nad oes modd eu cyflawni.

### Pwy sydd angen bod yn rhan o'r peth?

Mae cynnwys y rhanddeiliaid cywir yn hanfodol i gyflawni'r weledigaeth. Mae'r dewis o randdeiliaid i'w recriwtio yn dibynnu ar fwriad y broses mapio. Dyma restr wirio ddefnyddiol o ran y mathau o'r grwpiau yn y gymuned y gallech chi ymgysylltu â hwy:

- Plant ysgol (5 i 16)
- Pobl ifanc (16 i 30)
- Pobl Hŷn

- Teuluoedd
- Teuluoedd un-rhiant
- Pobl gydag anghenion corfforol
- Pobl gydag anghenion dysgu
- Grwpiau ethnig lleiafrifol a du
- Gweithwyr mudol
- Pobl sy'n teithio i'r gwaith (pobl sy'n byw yn y gymuned ond yn gweithio y tu allan iddi)
- Pobl sy'n gweithio yn y gymuned
- Busnesau lleol
- Cynrychiolwyr ystâd tai
- Grwpiau / cymdeithasau cymunedol
- Grwpiau ffydd
- Cyrff gwirfoddol sy'n gweithio yn yr ardal
- Darparwyr gwasanaeth

Gallwch ddefnyddio dulliau ymgysylltu gwahanol gyda grwpiau gwahanol o bobl yn y gymuned (cyfeiriwch at Gam 2 Mapio).

### Ble i ymgysylltu?

Mae gan y rhan fwyaf o gymunedau ystod o gyfleusterau cymunedol a gweithgareddau'n mynd ymlaen. Mae modd eu defnyddio ar gyfer y mapio cymunedol, er enghraifft:

- Canolfannau cymunedol / neuaddau pentref
- Ysgolion
- Llyfrgelloedd
- Mannau addoli
- Clybiau a chymdeithasau cymunedol presennol
- Dyddiau / gwyliau pentref / sioeau / gwyliau haf / carnifal cymunedol
- Cyfarfodydd cyhoeddus megis Cyngor Plwyf / Sefydliadau Preswylwyr / Fforymau
- Meddygfeydd / deintydd / siopau torri gwallt / siopau / swyddfa'r post / tafarndai

Yn yr un modd, mae modd casglu llawer o wybodaeth werthfawr drwy drafodaethau anffurfiol ar y stryd, yn benodol drwy gasglu barn y bobl hynny na fyddent yn ymgysylltu â gweithgareddau cymunedol presennol fel arfer.

### Sut mae ymgysylltu?

Mae angen i chi feddwl am ba fath o ymgysylltu sydd fwyaf addas ar gyfer y gymuned. Mae llawer o ddulliau ymgysylltu gan gynnwys holiaduron / arolygon, grwpiau ffocws / gweithdai, cyfarfodydd cyhoeddus, dyddiau agored / sesiynau galw heibio a hyrwyddo ar gyfryngau cymdeithasol / gwefannau. Bydd Cam 2 Mapio yn rhoi syniadau i chi am weithgareddau gwahanol y gallwch eu cynnal gyda'r gymuned.

Mae'n ddefnyddiol gwybod pa ddigwyddiadau eraill sy'n digwydd yn yr ardal a sut allwch fanteisio arnynt. Mae angen i chi benderfynu faint o ddigwyddiadau i'w cynnal ac ym mhle. Mae'n bwysig cynnig ystod o ddyddiadau ac amseroedd ar gyfer y digwyddiadau.

### Beth am gyhoeddusrwydd?

Unwaith yr ydych wedi penderfynu sut rydych am ymgysylltu, mae angen i chi feddwl am hyrwyddo'r digwyddiadau a chyhoeddusrwydd.

Mae'n bwysig defnyddio iaith y mae pawb yn ei deall a'i gwneud yn berthnasol iddynt hwyr. Efallai nad yw'r term mapio cymunedol yn gyfarwydd i bawb, felly mae'n well dweud "Eich lle, eich barn" neu rywbeth tebyg.

Wrth geisio canfod beth sy'n mynd ymlaen yn y gymuned, mae'n ddefnyddiol darganfod pa bapurau newydd, cylchgronau plwyf / cylchlythyrau lleol sy'n bodoli, ynghyd ag unrhyw gyfrifon Facebook / Twitter cymunedol, i helpu i hyrwyddo'r digwyddiad. Mae datganiadau i'r wasg cyson yn ffordd dda o sicrhau bod y gymuned yn gwybod yn union beth sy'n mynd ymlaen. Mae negeseuon rheolaidd ar gyfryngau cymdeithasol yn ffordd effeithiol a rhad o roi gwybod i'r gymuned am ddigwyddiadau.

Efallai y byddwch yn dymuno cyhoeddi eich taflen, poster, baner neu gylchlythyr eich hun er mwyn hyrwyddo'r digwyddiad.

Dylech hefyd ystyried y protocol cywir ar gyfer hyrwyddo'r digwyddiad, gan gynnwys awdurdodi erthyglau a chyfieithu i'r Gymraeg. Gall hyn effeithio ar derfynau amser y cyhoeddiadau.

Ar ôl datblygu rhwydwaith o gysylltiadau, mae angen i chi gael rhestr negeseuon e-bost da er mwyn anfon diweddariadau cynnydd cyson.

### Beth yw'r rhwystrau o ran ymgysylltu?

Mae sawl rhwystr a all atal pobl rhag ymgysylltu. Dylech ystyried datrysiadau ar gyfer sut i oresgyn rhwystrau.

#### Rhwystrau

- Capasiti a gallu rhanddeiliaid gwahanol i gymryd rhan
- Grwpiau 'anodd eu cyrraedd' megis pobl ifanc, pobl hŷn, grwpiau lleiafrifoedd ethnig neu grwpiau sydd wedi'u heithrio yn gymdeithasol
- Lefelau o seilwaith cymunedol
- Cymunedau rhanedig neu sydd â gwrthdaro
- Arwahanrwydd gwledig
- Bylchau o ran gwybodaeth
- Lefelau llythrennedd a rhifedd.

#### Datrysiadau i'w hystyried

- Angen hwyluso annibynnol
- Lleoliad a hygyrchedd y lleoliad
- Nifer a math y dulliau ymgysylltu
- Anghenion trafnidiaeth
- Anghenion gofal plant
- Ffurf a chynnwys y deunyddiau cyfathrebu a'r cyhoeddusrwydd
- Defnydd cyfieithwyr a phobl sy'n siarad iaith arwyddion
- Defnyddiwch ffont mawr ar gyfer taflenni, holiaduron, posteri a thaflenni gweithgareddau
- Angen gweithgareddau allgyrsiol